# DEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 8: Atodol

#### *Adran 48: Cwynion*

108. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi gwybodaeth sy'n nodi'r ffyrdd y bydd yn ymdrin â chwynion y mae'n eu cael, pa un a ydynt am arfer ei swyddogaethau ei hun, yn ymwneud yn benodol â dyfarnu cymhwyster a gymeradwywyd neu a ddynodwyd, neu'n ymwneud ag unrhyw weithgareddau eraill corff cydnabyddedig sy'n berthnasol i'w gydnabyddiaeth. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru benderfynu pa drefniadau y bydd yn eu dilyn mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r mathau hyn o gwynion, a chyhoeddi'r trefniadau hyn. Caniateir i'r trefniadau fod yn wahanol yn unol â'r math o g#yn. Mae'n bosibl y bydd Caiff Cymwysterau Cymru yn ystyried, unwaith y mae wedi ymdrin â ch#yn hyd at bwynt penodol, fod angen atgyfeirio'r g#yn at drydydd parti annibynnol a chaiff y trefniadau hyn sydd wedi eu cyhoeddi wneud darpariaeth ar gyfer hyn. Mae is-adran (4) yn diffinio person fel un sy'n 'annibynnol' at y diben hwn pan na fo'r person yn aelod o Gymwysterau Cymru nac ychwaith yn aelod o'i staff (neu, mewn achos pan fo'r person annibynnol yn gorff, os nad yw unrhyw un o'i aelodau yn aelod o Gymwysterau Cymru nac yn aelod o staff Cymwysterau Cymru).